OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2007 No. 2386

# Gorchymyn Deddf Tiroedd Comin 2006 (Cychwyn Rhif 1, Darpariaethau Trosiannol ac Arbedion) (Cymru) 2007

**Darpariaethau sy'n dod i rym ar 6 Medi 2007**

**3.** Mae'r darpariaethau a ganlyn o Ddeddf 2006 yn dod i rym ar 6 Medi 2007—

(a) adran 4 (awdurdodau cofrestru tiroedd comin);

(b) adran 5 (tir y mae Rhan 1 yn gymwys iddo);

(c) adran 15 (cofrestru meysydd tref neu bentref);

(ch) adran 23 (trosiannol), i'r graddau y mae yn rhoi ei effaith i baragraff (i) o'r erthygl hon;

(d) adran 24 (ceisiadau etc.) i'r graddau nad yw'n cael ei dwyn i rym gan erthygl 2 o'r Gorchymyn hwn;

(dd) adran 44 (materion atodol), i'r graddau y mae yn rhoi ei effaith i baragraff (j) o'r erthygl hon;

(e) adran 45 (pwerau awdurdodau lleol dros dir nas hawlwyd);

(f) adran 47 (cau tir gan y perchennig);

(ff) adran 49 (hysbysiad cau tir);

(g) adran 51 (mynediad i gerbydau);

(ng) adran 52 (mân ddiwygiadau a diwygiadau canlyniadol), i'r graddau y mae yn rhoi ei effaith i baragraff (l) o'r erthygl hon;

(h) adran 53 (diddymiadau), i'r graddau y mae yn rhoi eu heffaith i baragraffau (ll) i (o) o'r erthygl hon;

(i) yn Atodlen 3 (cofrestru: darpariaeth drosiannol), paragraff 9;

(j) yn Atodlen 4 (gwaith: materion atodol), paragraff 6;

(l) yn Atodlen 5 (mân ddiwygiadau a diwygiadau canlyniadol)

(i) paragraff 4,

(ii) is-baragraff (a) o baragraff 6, a

(iii) is-baragraff (5) o baragraff 7 ac is-baragraff (1) o'r paragraff hwnnw i'r graddau y mae yn ymwneud ag ef;

(ll) yn Rhan 1 o Atodlen 6 (diddymiadau yn ymwneud â chofrestru), y cofnodion sy'n ymwneud ag—

(i) Deddf Cofrestru Tiroedd Comin 1965 i'r graddau y mae'n diddymu adrannau 8, 9 a 13(a) a (b)(**1**) o Ddeddf 1965,

(ii) adran 189(1) a (2) o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972(**2**),

(**1**) 1965 p.64; diwygiwyd adran 8 gan Ddeddf Llywodraeth Leol 1972 (p.70), adran189(2) a chan Ddeddf Cofrestru Tir 2002 (p.9), Atodlen 11, paragraff 7(1) a (2); diwygiwyd adran 9 gan Ddeddf Cofrestru Tir 2000, Atodlen 11, paragraff 7(1) a (3); diwygiwyd adran 13 gan Ddeddf Cyfraith Eiddo 1969 (p.59), Atodlen 2, Rhan I.

(**2**) 1972 p.70.

(iii) paragraff 10(6) o Atodlen 8 i Ddeddf Llywodraeth Leol 1985(**3**),

(iv) adran 8 o Ddeddf Tiroedd Comin Dartmoor 1985(**4**),

(v) Deddf Tiroedd Comin (Cywiro Cofrestrau) 1989(**5**),

(vi) adrannau 46(1) a 98 o Ddeddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy 2000(**6**), a

(vii) adran 33(1) o Ddeddf Tiroedd Comin Greenham a Crookham 2002(**7**);

(m) yn Rhan 2 o Atodlen 6 (diddymiadau yn ymwneud â gwaith), y cofnodion yn ymwneud ag

(i) adran 21 o Ddeddf y Tiroedd Comin Metropolitanaidd 1866(**8**),

(ii) adran 30 o Ddeddf Tiroedd Comin 1876(**9**),

(iii) adran 21o Ddeddf Tiroedd Comin 1899 (**10**), a

(iv) Atodlen 7 i Ddeddf Prynu Gorfodol 1965(**11**);

(n) yn Rhan 3 o Atodlen 6 (diddymiadau yn ymwneud â chau tir gan y perchennog a chau tir), y cofnodion yn ymwneud â

(i) Deddf Tiroedd Comin 1285(**12**),

(ii) adran 31 o Ddeddf Tiroedd Comin 1876, a

(iii) Deddf Diwygio Cyfraith Tiroedd Comin 1893(**13**); ac

(o) Rhan 5 o Atodlen 6 (diddymiadau yn ymwneud â mynediad i gerbydau).

(**3**) 1985 p.51.
(**4**) 1985 p.xxxvii.
(**5**) 1989 p.18
(**6**) 2000 p.37.
(**7**) 2002 p.i.
(**8**) 1866 p.122.
(**9**) 1876 p.56; diwygiwyd adran 30 gan Ddeddf Gweinyddu Cyfiawnder (Apelau) 1934 (p.40), yr Atodlen, Rhan I a chan Ddeddf Diwygio'r Cyfansoddiad 2005 (p.4), Atodlen 11, Rhan 4, paragraff 13.
(**10**) 1899 p.30; diwygiwyd adran 21 gan Ddeddf Adolygu Cyfraith Statud 1908 (p.49).
(**11**) 1965 p.56.
(**12**) 13 Edw 1 p.46.
(**13**) 1893 p.57.